| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | 0 |

# TGAU

3000N20-1

Z22-3000N20-1

**DYDD MAWRTH, 17 MAI 2022 – PRYNHAWN**

# CYMRAEG IAITH

## Uned 2

## Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

2 awr

| I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|
| | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| **Adran A (Darllen)** | **30** | |
| **Adran B (Ysgrifennu)** | **40** | |
| **Cyfanswm** | **70** | |

3000N201 01

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Deunydd Darllen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A a B1.

Dewiswch **un** o'r testunau yn Adran B2 ar gyfer y dasg ysgrifennu.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd priodol yn y llyfryn hwn.

Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch ar gyfer eich atebion. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r rhif cywir i'r cwestiwn.

Awgrymir eich bod yn treulio eich amser gan ddilyn y canllawiau canlynol:

| | |
|---|---|
| Adran A | - tua 10 munud yn darllen |
| | - tua 50 munud yn ateb y cwestiynau |
| Adran B1 | - tua 10 munud |
| Adran B2 | - tua 10 munud yn cynllunio |
| | - tua 40 munud yn ysgrifennu |

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Adran A (Darllen): 30 marc

Adran B (Ysgrifennu): 40 marc

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

JUN223000N20101

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

VP*(S22-3000N20-1)

Arholwr yn unig

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

Yn yr adran hon mae 6 darn darllen ar y thema ‘Elusen’ yn y Deunydd Darllen sydd ar wahân. Darllenwch **bob** un o’r darnau’n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy’n dilyn.

**Darn Darllen 1**
**Cyfrannu at Elusen**

**A1.** Pa ganran o ddynion yr Alban gyfrannodd at elusen? [1]

Rhowch (✓) yn y blwch priodol.

| | |
|---|---|
| 83% | ☐ |
| 27% | ☐ |
| 88% | ☐ |
| 13% | ☐ |

**A2.** Nodwch a yw’r gosodiadau canlynol yn gywir neu’n anghywir trwy roi ✓ neu X yn y golofn ar y dde. Mae un wedi ei wneud i chi’n barod. [2]

| | ✓ neu X |
|---|---|
| Mae 57% o’r bobl sy’n cyfrannu at elusen yng Ngogledd Iwerddon yn rhoi arian i elusennau crefyddol. | X |
| Mae mwy o bobl Lloegr yn rhoi arian i gadwraeth nag unrhyw wlad arall ym Mhrydain. | |
| Yn ne-ddwyrain Lloegr, mae hanner y bobl sy’n rhoi arian i elusen yn gwneud hynny trwy dalu arian bob mis. | |

**Darn Darllen 2**
**Trec yr Wyddfa**

**A3.** Mae **un** o’r gosodiadau canlynol yn gywir. Nodwch pa un sydd yn gywir trwy roi ✓ wrth un o’r brawddegau. [1]

| | |
|---|---|
| Rhaid codi o leiaf gan punt mewn nawdd er mwyn cymryd rhan yn y daith gerdded. | |
| Os nad ydych yn llwyddo i orffen y daith gerdded, fe gewch eich tâl cofrestru yn ôl. | |
| Cwmni Tŷ Gobaith sy’n noddi’r daith gerdded. | |
| Gall plant o bob oed gymryd rhan yn y daith gerdded. | |



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**A4.** Pa air sy'n awgrymu bod yn rhaid cofrestru o flaen llaw er mwyn cymryd rhan yn y daith gerdded? [1]

Rhowch (✓) yn y blwch priodol.

- uchaf ☐
- isafswm ☐
- elusen ☐
- angenrheidiol ☐

**Darn Darllen 3**
**Cwis Plant Mewn Angen**

**A5.** Beth yw bwriad yr awdur yn y darn hwn? [1]

Rhowch (✓) yn y blwch priodol.

- mynegi barn ☐
- perswadio ☐
- cyflwyno gwybodaeth ☐
- dadlau ☐

**A6.** Esboniwch sut mae Plant Mewn Angen wedi datblygu a newid dros y blynyddoedd. Dylech gyfeirio at y darn darllen i gefnogi eich ateb. [4]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

3000N201 03

Arholwr yn unig

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

**Darn Darllen 4**
**Cymro o Bowys yn cneifio 1,143 o ddefaid mewn 24 awr**

**A7.** Mae Owen Davies yn falch o'r hyn mae ef wedi ei wneud. Nodwch **un** rheswm sy'n esbonio pam mae e'n falch. [1]

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................

............................................................................................................................................................


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**A8.** A yw 'marathon o sialens' yn ddisgrifiad da o'r hyn a wnaeth Owen Davies? Nodwch pa **dechneg/nodwedd arddull** a ddefnyddir yn y disgrifiad a thrafodwch **a yw'n ddisgrifiad da** yn eich tyb chi. [3]

3000N201 05



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**Darn Darllen 5**
**Gwenu yn Ghana**

**A9.** Pa air yn y darn isod sydd yn golygu bod talu am y daith wedi bod yn anodd? Tanlinellwch **un gair**. [1]

> Does dim amheuaeth mai codi'r arian i allu mynd ar fy nhaith i Ghana oedd yr her fwyaf. Roedd gennyf tua chwe mis i godi oddeutu £3,000. Er mwyn gallu gwireddu fy mreuddwyd i wirfoddoli yn Ghana, un peth a wnes i godi arian oedd gwerthu fy ngwaith celf i bobl leol.

**Darn Darllen 6**
**Y Seren Ffilm â'r Galon Lân**

**A10.** Pam rydych chi'n meddwl bod elusen Achub y Plant wedi dewis Luke Evans fel llysgennad iddyn nhw? [2]

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**Darnau Darllen 5 a 6**
**Gwenu yn Ghana**
**Y Seren Ffilm â'r Galon Lân**

**A11. Cymharwch** brofiadau Mari Wyn Jones a Luke Evans. Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth o'r darnau darllen i gefnogi'ch ateb. [8]

3000N201 07

Arholwr yn unig


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**A12. Golygu (5 marc)**

(i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Roedd Tom wedi llwyddo am ei fod wedi gweithio'n .................................................................... .

ddiog ☐

gydwybodol ☐

llafurus ☐

gartref ☐

(ii) Dyma frawddeg yn y trydydd person yn sôn am Elin. Newidiwch y frawddeg i'r person cyntaf fel ei bod yn sôn amdanoch chi eich hun. [3]

**Aeth Elin i'r dref a phrynodd lyfr newydd er mwyn iddi fedru ei ddarllen yn ystod y gwyliau.**

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

(iii) Dewiswch **un gair** o'r rhestr a'i osod yn y bwlch. [1]

**llyniau** **lluniau** **lliniau**

Mae Teleri yn hoff o dynnu .................................................................... ac mae hi wedi ennill llawer o wobrau.

3000N201 09

Arholwr yn unig

**ADRAN B (Ysgrifennu): 40 marc**

**B1. Prawf ddarllen**

(i) Yn y tabl isod, mae'r ddwy golofn gyntaf yn dangos dau opsiwn, un yn gywir ac un yn anghywir. Dewiswch yr opsiwn cywir a'i ysgrifennu yn y drydedd golofn. Mae un enghraifft wedi ei gwneud i chi'n barod. [3]

| **Pa un sy'n gywir?** | | **Cywir** |
|---|---|---|
| am hi | amdani | amdani |
| ohonyn nhw | o nhw | |
| merch brydferth | merch prydferth | |
| i fynu | i fyny | |
| gwersau | gwersi | |
| y bardd | y fardd | |
| enillodd | ennillodd | |

(ii) Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir. [1]

dweud i ☐

dweud wrth ☐

(iii) Mae un gwall yn y frawddeg isod. Yn y golofn gyntaf, nodwch y gwall ac yna cywirwch ef yn yr ail golofn. [1]

Gwelais i ffilm gwych yn y sinema ddoe.

| Gwall | Cywiriad |
|---|---|
| | |



© WJEC CBAC Cyf.

**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**B2.** Yn y dasg hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau **ysgrifennu**.

Dewiswch **un** o'r canlynol i ysgrifennu amdano.

**Naill ai,**

(a) Ysgrifennwch erthygl papur newydd yn sôn am brofiad rhywun sydd yn wynebu her neu sialens.

**Neu,**

(b) Rydych wedi bod yn rhan o ddigwyddiad i godi arian at achos da.

Ysgrifennwch gofnod/gofnodion dyddiadur yn disgrifio'r digwyddiad. Gallwch sôn am y digwyddiad ei hun, am y paratoadau ac am effaith y digwyddiad.

Bydd 20 marc am gynnwys a threfn a 15 marc am ysgrifennu'n gywir. [35]

Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.

Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.

Gallwch ddefnyddio'r tudalennau ychwanegol sydd yng nghefn y llyfryn os bydd angen.

Dylech geisio ysgrifennu rhwng 350 a 500 o eiriau.

CYNLLUN


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

TEITL:

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**DIWEDD Y PAPUR**



© WJEC CBAC Cyf.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig

| Rhif y Cwestiwn | **Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.**<br>**Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen.** |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

**TUDALEN WAG**

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON**


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**TGAU**

3000N20-1A

Z22-3000N20-1A

**DYDD MAWRTH, 17 MAI 2022 – PRYNHAWN**

# CYMRAEG IAITH
## Uned 2
## Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

2 awr


**DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A**

3000N201A
01

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**DARN DARLLEN 1**

**Cyfrannu at Elusen**



DARN DARLLEN 2

# TREC YR WYDDFA

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK



**Heriwch eich hun i gerdded i gopa mynydd uchaf Cymru**

**SUL GORFFENNAF 3ydd 2022**

I gofrestru neu am fwy o wybodaeth:
**01492 596581**
neu
**www.hopehouse.org.uk**

***TÂL COFRESTRU – £20**
**ISAFSWM ARIAN NODDI – £100**
**COFRESTRU'N ANGENRHEIDIOL**

**Noddwyd yn garedig gan**

Sional

tŷ gobaith
rydym yma i blant

***Nid ad-delir y ffi cofrestru**
**Yn agored i rai 14+ mlwydd oed a rhaid i oedolyn ddod gyda'r rhai dan 18 oed**
**Rhif Elusen Gofrestredig: 1003859**

3000N201A 03

## DARN DARLLEN 3

cymru fyw

Hafan | Cylchgrawn | Gwleidyddiaeth | Gog-Orll | Gog-Ddwy | Canolbarth | De-Orll | Wales News

http//www.bbc.co.uk/cymrufyw/29880659

Search...

VOCAB ?

# Cwis Plant Mewn Angen

Tachwedd 2014

Rhannu



Ar noson Plant Mewn Angen, bydd pobl yn codi arian mewn nifer o ffyrdd gwahanol dros y wlad.

Mae'r mwyafrif ohonoch siŵr o fod yn gyfarwydd â'r telethon blynyddol i godi arian at achosion da yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Ond faint ydych chi'n ei wybod am ei hanes?

**Cwestiynau:**

1. **Pryd cafodd Plant Mewn Angen ei ddarlledu gyntaf?**
   a) 1927 b) 1955 c) 1980

2. **Faint o arian gafodd ei godi gan yr apêl gyntaf?**
   a) £1,143 b) £114,300 c) £1,143,000

3. **Beth oedd enw'r arth wnaeth ymddangos ar raglen gyntaf Plant Mewn Angen ar y teledu?**
   a) Sooty b) Paddington c) Pudsey

4. **Ar ddiwedd noson telethon gyntaf Plant Mewn Angen, faint o arian oedd wedi ei addo?**
   a) £10,000 b) £100,000 c) £1,000,000

5. **Ar noson gyntaf Plant Mewn Angen, pa ferch oedd yn cyflwyno yn Llundain gyda Terry Wogan?**
   a) Sue Barker b) Sue Lawley c) Siw Hughes

6. **Pwy oedd yn gyfrifol am greu Pudsey?**
   a) Yr Arglwydd Reith b) Plant Barnados c) Cynllunydd graffeg o'r BBC

7. **Ar ôl beth cafodd Pudsey ei enw?**
   a) Ci ei grëwr b) Cartref genedigol ei grëwr c) Arth degan ei grëwr



**Atebion:**

**1a:** Fe welodd Plant Mewn Angen olau dydd gyntaf yn 1927 fel apêl radio ar ddydd Nadolig. Ymddangosodd ar y teledu gyntaf yn 1955, fel y *Children's Hour Christmas Appeal*. Yn 1980 fe ddatblygodd i fod yn telethon.

**2a:** Llwyddodd yr apêl gyntaf i godi £1,143 sydd yn cyfateb i rhyw £27,150 yn arian heddiw. Cafodd yr arian ei ddosbarthu i bedair elusen i blant.

**3a:** Pan ymddangosodd rhaglen Plant Mewn Angen ar y teledu gyntaf yn 1955, roedd yn cael ei chyflwyno gan arth fach felen, sef Sooty, ac yn para pum munud.

**4c:** Yn 1980, cafodd nifer o eitemau byw eu darlledu rhwng y rhaglenni ar BBC1 yn ystod y noson. Ar noson gyntaf Plant Mewn Angen ar ei newydd wedd, cododd y cyfanswm yn sylweddol i £1 miliwn. Y cyfanswm a godwyd yn yr holl flynyddoedd rhwng 1955 a 1979 oedd £625,836.

**5b:** Terry Wogan a Sue Lawley oedd yn cyflwyno ar y noson.

**6c:** Daeth Pudsey yn rhan o'r noson yn 1985. Cafodd Pudsey ei gynllunio gan Joanna Ball, oedd yn gweithio fel cynllunydd graffeg yn y BBC.

**7b:** Mae Pudsey wedi ei enwi ar ôl Pudsey, y dref yn Sir Gorllewin Efrog lle cafodd y cynllunydd Joanna Ball ei magu.

## DARN DARLLEN 4

http//golwg360.cymru/newyddion/cymru/548196-cymro-bowys-cneifio-1143-ddefaid-mewn

Search...

golwg360

Dyfodol Cymunedau Gwledig - Cefnogi ein Ffermwyr
2yp, dydd Mercher, 7fed Awst

Hafan Newyddion Chwaraeon Celfyddydau Blog Swyddi

Cymru | Prydain | Rhyngwladol | Addysg | Arian a Busnes | Gwleidyddiaeth | Iaith | Iechyd | Gwyddoniaeth a Thechnoleg

### Cymro o Bowys yn cneifio 1,143 o ddefaid mewn 24 awr

Pynciau Llosg

18 Mehefin 2019 am 15:15 Diweddarwyd 19 Mehefin 2019 am 14:09



Mae cneifiwr o Bowys wedi llwyddo i gneifio cyfanswm o 1,143 o ddefaid mewn cyfnod o 24 awr, a hynny er mwyn codi arian at achos da. Fe lwyddodd Owen Davies, 26, o ardal Llanandras, Sir Faesyfed, i gasglu rhwng £15,000 ac £20,000 ar gyfer Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru – llawer mwy na'r targed gwreiddiol o £6,000. Cafodd y marathon o sialens ei chynnal ar Fferm Heartsease, Tref-y-clawdd, dros y penwythnos (Mehefin 14 a 15), gyda thorf o tua 400 o gefnogwyr yn ymgasglu i wylio'r cneifiwr ifanc wrth ei waith.

"Dw i wedi blino ac yn teimlo ychydig o ryddhad bod y cyfan drosodd," meddai Owen Davies wrth golwg360.

"Mae fy nghorff yn boenus, ond mae wedi bod yn werth y cyfan ar ôl codi swm da o arian ar gyfer elusen anhygoel."

**Chwalu'r targed**

Cyn cychwyn yr her, roedd Owen Davies, a fu'n paratoi ar gyfer y diwrnod mawr ers misoedd, wedi gobeithio cneifio hyd at 1,000 o ddefaid. Fe lwyddodd i chwalu'r targed hwnnw er gwaethaf cyfnodau anodd yn ystod y 24 awr. Bu'n rhaid gofyn i ffermwr lleol ddarparu rhagor o ddefaid gan fod y cneifiwr wedi cneifio cymaint.

"Roedd yn anodd wrth i'r oriau fynd yn eu blaen," meddai Owen Davies. "Ar y cychwyn, roeddwn i'n teimlo'n ddigon ymlaciedig, ond fe aeth hi'n anoddach wrth iddi dywyllu ac oeri y tu allan.

"Roedd y nos yn adeg anodd, ond unwaith y dechreuodd pobol ddychwelyd ar y dydd Sadwrn i gefnogi, roedd hi'n haws."

# TUDALEN WAG

**DARN DARLLEN 5**

# Gwenu yn Ghana



**Fy enw i yw Mari Wyn Jones ac rwy'n 16 oed. Dyma hanes y profiad anhygoel a gefais i yn Affrica.**

Yn ddiweddar, mi ges i'r profiad bythgofiadwy o gael teithio dramor i Cape Coast, Ghana, i wirfoddoli gyda chymunedau ac ysgolion llai ffodus na ni yma yng Nghymru. Wrth dreulio pythefnos yn gwneud gwaith meddygol, agorwyd fy llygaid i'r problemau lluosog sy'n wynebu plant diniwed o ddydd i ddydd.

Does dim amheuaeth mai codi'r arian i allu mynd ar fy nhaith i Ghana oedd yr her fwyaf. Roedd gennyf tua chwe mis i godi oddeutu £3,000. Er mwyn gallu gwireddu fy mreuddwyd i wirfoddoli yn Ghana, un peth a wnes i godi arian oedd gwerthu fy ngwaith celf i bobl leol.

Dechreuodd y nerfusrwydd gydio wrth i'r daith agosáu. Roedd rhaid prynu'r dillad cywir, a chael y pigiadau angenrheidiol ac roedd y newid iaith yn fy mhoeni. Ceisiais beidio â meddwl y gwaethaf.

Roeddwn ar bigau'r drain yn poeni am fy mod yn teithio ar fy mhen fy hun. Ond mewn gwirionedd, roedd yn brofiad da cael hedfan heb fy nheulu. Cefais gyfle i fagu mwy o hyder ac annibyniaeth ac roeddwn wedi cyffroi'n lân yn meddwl am beth fyddai'r pythefnos nesaf yn ei gynnig i mi…

Arhosais mewn hostel yn Accra gyda phobl ifanc eraill oedd yno am yr un rheswm â mi. Wedyn aethom ymlaen i Cape Coast: yno roedden ni'n aros am bythefnos gyda theulu fyddai'n gofalu amdanon ni. Roedd y ddynes oedd yn cynnig llety i ni yn gyn-brifathrawes ac roedd y tŷ yn orlawn – ei theulu hi yn byw yn gytûn gyda'r holl ymwelwyr o bedwar ban byd. Reis oedd prif gynhwysyn bron pob pryd bwyd. Rydw i'n gwerthfawrogi amrywiaeth ein bwyd gartref wedi'r ymweliad â Ghana a'r holl reis!

Cawsom lawer iawn o gyfleoedd i ymweld ag ysgolion a chymunedau yn ystod ein hamser yn Ghana. Fe wnaethom ddiagnosis Hepatitis B (clefyd heintus ar yr iau na ellir gwella ohono) ar oddeutu 15 o bobl. Yn ogystal â hyn fe wnaethom ni ddarganfod 7 achos o malaria.

Un ysgol yn benodol wnaeth argraff fawr arnaf oedd y 'Future Leaders Preparatory School', a hynny oherwydd ei diffyg adnoddau. Roedd yr athrawon yn gofyn i ni am ddeunyddiau syml fel pensiliau, papur a sebon. Dyma rywbeth rydym yn ei gymryd yn ganiataol yn ein hysgolion ni. Hefyd, dysgais fod chwarter y plant oedd yn yr ysgol yn methu prynu bwyd y ffreutur, a'r gost yn ddim ond yn 2 Cedi (£0.36). Sylweddolais yn syth yr effaith y buaswn yn gallu ei chael ar fywydau'r plant, wrth i mi helpu gyda'u haddysg a'u hiechyd cyffredinol. Roedd budreddi yn amgylchynu tai y disgyblion ac nid oedd gwasanaethau cyhoeddus i glirio sbwriel, felly roedd golygfeydd blêr a budr yn gyffredin. Roedd hi'n eglur bod iechyd y disgyblion dan fygythiad bedair awr ar hugain y dydd, bob dydd…

Roedd yn brofiad rhyfedd iawn cael ymweld â'r 'Atkata Cured Leprosy Camp'. Roedd yn llawn dioddefwyr y gwahanglwyf oedd wedi eu gwrthod gan gymdeithas. Yno fe wnes i gyfarfod ag Aynok, dyn oedd wedi dioddef o'r gwahanglwyf ers 18 mlynedd. Doedd ganddo ddim arian i brynu cyffuriau lleddfu poen. Cynigais 20 Cedi iddo, sef digon o bres iddo fedru prynu tabledi am dri mis. Er ei fod mewn poen, roedd ei wên o ddiolch yn werth y byd. Dyna olygfa nad anghofiaf weddill fy oes…

Ar ôl treulio amser bythgofiadwy yn Ghana, dw i'n sylweddoli pwysigrwydd gwirfoddoli a gwaith elusennol. Mae mwy o werth i wên nag arian. Rwyf bellach yn canolbwyntio ar godi ychwaneg o arian i roi i'r ysgolion yn ne Ghana er mwyn gwella addysg ac iechyd y plant.

**DARN DARLLEN 6**

# Y SEREN FFILM Â'R GALON LÂN

Mae Luke Evans, 39 oed, sydd wedi actio yn **The Girl on the Train**, **Beauty and the Beast** a thrioleg **The Hobbit**, newydd ddychwelyd o Ddyffryn Bekaa yn Libanus lle bu'n ymweld â gwersyll i ffoaduriaid o Syria, fel rhan o'i waith yn llysgennad gydag elusen Achub y Plant.

Mae'n "gyfrifoldeb ar bawb" i wneud rhywbeth i helpu plant sy'n dioddef oherwydd rhyfeloedd, yn ôl y Cymro sy'n creu argraff mewn ffilmiau Hollywood.

"Dw i'n ddig bod rhyfel yn y byd o gwbl, ac yn credu y byddai'n wych petai pobl yn gallu datrys pethau heb ryfel. Ond mae rhyfeloedd wedi bod yn digwydd ers cyn cof, a phlant yw'r rhai sy'n dioddef bob tro.

"Mae'n anodd gweld oedolion yn dioddef, ond pan fyddwch chi'n gweld plant yn dioddef, mae'n anodd iawn anwybyddu'r peth. Mae gennym ni i gyd gyfrifoldeb i wneud rhywbeth a gallwn fforddio cyfrannu rhywbeth at elusen i helpu.

"Mae'r rhyfeloedd yma filoedd o filltiroedd i ffwrdd, ac mae'n bosib i ni ddewis eu hanwybyddu, ond mae'n gyfrifoldeb arnon ni fel bodau dynol i ofalu am ein cyd-ddyn."

Yn ystod ei ymweliad, bu Luke Evans mewn dosbarth o blant 3 i 7 oed ar fws yr elusen Achub y Plant. Bu'n siarad â Mustafa, 6 oed, a'i chwaer 7 oed, Ayesha, a oedd wedi ffoi o'u fferm yn Syria bum mlynedd yn ôl. Cafodd fynd i'w cartref sef pabell gyda llawr concrit a mat, a dŵr yn diferu o'r nenfwd. Roedd y teulu wedi gorfod ffoi a gadael eu heiddo i gyd a cherdded am ddiwrnod a hanner dros y mynyddoedd.

"Y cyfan maen nhw'n ei wybod am eu bywydau hyd yma yw'r gwersyll yma yng nghanol nunlle," meddai'r actor. "Maen nhw'n dibynnu ar gyfraniadau ac elusennau i'w helpu nhw. Beth sy'n anhygoel am blant, yn arbennig y rhai bach, yw eu diniweidrwydd a'u dycnwch a hwythau heb ddim," meddai. "Roedd hi'n anhygoel gweld y wên ar eu hwynebau.

"Mewn ystafell ddosbarth, lle'r oedd yna ddarlunio, canu a dawnsio – roedd hi'n hyfryd gweld eu bod yn cael hoe o'r bywyd truenus maen nhw'n ei fyw. Maen nhw'n dod i ddysgu, ac yn cael rhywfaint o les drwy liw, a chelf a cherddoriaeth."

Dyw plant sy'n ffoaduriaid ddim yn cael addysg gynnar ac maen nhw'n ffodus o gael unrhyw addysg bellach gan fod y mwyafrif yn cael eu hanfon i weithio i gynnal eu teulu. "Felly maen nhw'n mynd o ddim byd i lafur plant," meddai. "Mae'n fy ngwneud yn ymwybodol o ba mor lwcus oeddwn i gael bwyd iachus, gwely clyd, ac addysg – rhywbeth nad oeddwn yn ei werthfawrogi ar y pryd wrth gwrs."

Mae bod yn llysgennad ar ran Achub y Plant yn gwneud rhywfaint o iawn am fod yn actor ffilm, yn ôl Luke Evans. "Dw i wedi sylweddoli bod yna sgil-effeithiau o fod mewn ffilmiau ac enwogrwydd yw un ohonyn nhw," meddai. "Dw i yn wyneb cyfarwydd i bawb, mewn unrhyw wlad dw i'n mynd iddi.  Dyna fel y mae i mi ar hyn o bryd. Dw i ddim wedi



cael bod yn anhysbys ers tro byd.
"Mae gallu defnyddio hynny mewn ffordd gynhyrchiol, trwy roi llais i'r plant yma, a stori y bydd fy ffans a'm dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn gwrando arni, yn beth gwych. Mae'n gwneud yr hyn dw i'n ei wneud fel bywoliaeth ychydig bach yn fwy dilys.

"Mae'n rhywbeth dw i'n gallu ei wneud gyda'r enwogrwydd yma – rhoi stori, wyneb a llais i blant mewn trybini."
NON TUDUR
Golwg, 29 Tachwedd 2018

# TUDALEN WAG

# TUDALEN WAG

**TGAU**

3000N20-1B

Z22-3000N20-1B

**DYDD MAWRTH, 17 MAI 2022 – PRYNHAWN**

# CYMRAEG IAITH

**Uned 2**

**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**

2 awr

**Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau.**
**Clawr blaen y papur arholiad yn unig yw'r daflen hon.**
***For the attention of the Examinations Officer.***
***This is the front cover of the examination paper only.***
***English instructions overleaf.***

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad 3000N20-1 bydd angen Deunydd Darllen arnoch chi.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben tudalen 1.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A a B1.

Dewiswch **un** o'r testunau yn Adran B2 ar gyfer y dasg ysgrifennu.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd priodol yn y llyfryn hwn.

Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch ar gyfer eich atebion. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r rhif cywir i'r cwestiwn.

Awgrymir eich bod yn treulio eich amser gan ddilyn y canllawiau canlynol:

| | |
|---|---|
| Adran A | – tua 10 munud yn darllen |
| | – tua 50 munud yn ateb y cwestiynau |
| Adran B1 | – tua 10 munud |
| Adran B2 | – tua 10 munud yn cynllunio |
| | – tua 40 munud yn ysgrifennu |

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Adran A (Darllen): 30 marc
Adran B (Ysgrifennu): 40 marc

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

GCSE

3000N20-1B

Z22-3000N20-1B

**TUESDAY, 17 MAY 2022 – AFTERNOON**

# *WELSH LANGUAGE*

***Unit 2***

***Reading and Writing: Description, Narration and Exposition***

*2 hours*

***For the attention of the Examinations Officer.***
***This is the front cover of the examination paper only.***

***ADDITIONAL MATERIALS***

*As well as examination paper 3000N20-1 you will need Reading Material.*

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen. Do not use gel pen or correction fluid.*

*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of page 1.*

*Answer **all** questions in Section A and B1.*

*Choose **one** of the topics in Section B2 for the writing task.*

*Write your answers in the spaces provided in this booklet.*

*There are additional pages at the end of this booklet if you require more space for your answers. You should make sure that you number the question correctly.*

*You are advised to spend your time by following these guidelines:*

*Section A – about 10 minutes reading*
*– about 50 minutes answering the questions*
*Section B1 – about 10 minutes*
*Section B2 – about 10 minutes planning*
*– about 40 minutes writing*

*Dictionaries are not permitted in this examination.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*Section A (Reading): 30 marks*
*Section B (Writing): 40 marks*

*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

© WJEC CBAC Ltd